**Y Pwyllgor Diwylliant CC 16-02 p4**

Dyddiad: 23 Hydref 2002

Amser: 9.00am-12.30pm

Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**ADRODDIAD Y GWEINIDOG DROS DDIWYLLIANT, CHWARAEON A'R IAITH GYMRAEG**

***Casglu'r Tlysau***

Ddydd Llun 14 Hydref, roeddwn yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru yn lansio gwefan 'Casglu'r Tlysau'. 'Casglu'r Tlysau' yw'r prosiect digideiddio mwyaf yng Nghymru ac mae'n deillio o waith ar y cyd rhwng naw o sefydliadau, a gafodd eu dwyn ynghyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ym 1999. Maent yn cynrychioli 170 o amgueddfeydd, archifdai a llyfrgelloedd ledled Cymru.

'Y Gronfa Cyfleoedd Newydd' sy'n ariannu'r prosiect yn bennaf fel rhan o'i rhaglen 'Digideiddio Deunyddiau Dysgu'. Ei nod yw digideiddio mwy nag 20,000 o ddelweddau o dreftadaeth ddiwylliannol, sydd i'w gweld mewn sefydliadau ledled Cymru. Mae'r delweddau hynny wrthi'n cael eu casglu ynghyd fel rhan o wefan a fydd yn dod yn adnodd dysgu cenedlaethol newydd. Bydd y wefan adlewyrchu ac yn hyrwyddo pa mor amrywiol ac arwyddocaol yw'r deunyddiau sydd mewn llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifdai yng Nghymru.

Rwy'n arbennig o ddiolchgar i bawb sydd wedi cyfrannu at wireddu'r prosiect uchelgeisiol a chyffrous hwn.

***Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus***

Yn gynharach eleni, roedd yn ofynnol i bob awdurdod llyfrgell yng Nghymru gynhyrchu cynllun llyfrgelloedd tair blynedd cryno ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2002 a 31 Ebrill 2005. Roedd y cynlluniau'n cynnwys dehongliad o'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â'm safonau llyfrgelloedd cyhoeddus a sut yr oedd yr awdurdodau yn bwriadu eu cyflawni.

Mae'r cynlluniau wedi'u hasesu bellach ac rydym wedi cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig arnynt i bob awdurdod llyfrgell. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Arweinydd bob Cyngor yng Nghymru yn amgáu copi o'r adroddiad er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei ystyried o ddifrif a bod camau'n cael eu cymryd.

Y cam nesaf yw cynnal seminarau bwydo'n ôl i rannu profiadau a datblygiadau ac i helpu awdurdodau i baratoi ar gyfer yr adroddiadau cynnydd blynyddol y bydd angen eu cyflwyno i Lywodraeth y Cynulliad fis Mehefin nesaf.

***Yr Eisteddfod Genedlaethol***

Roeddwn ar faes yr Eisteddfod Genedlaethol yn Nhyddewi ar 8 Awst yn lansio sawl menter i annog pobl i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd. Roeddwn yn falch o gael rhoi fy nghefnogaeth i Wasanaeth Llyfrau Sy'n Siarad newydd digidol RNIB Cymru, sydd ar gael am y tro cyntaf erioed yn Gymraeg i bobl sydd nam ar eu golwg. Cafodd Bwletin Twf ei lansio hefyd. Mae hwn yn parhau â gwaith rhagorol prosiect Twf Bwrdd yr Iaith o wneud rhieni'n fwy ymwybodol o'r manteision o fagu eu plant yn ddwyieithog. Roeddwn hefyd yn bresennol yn achlysur lansio cynhyrchiad Theatr Na N’óg o *Nia Ben Aur.*

***Y Cynllun Iaith Gymraeg***

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cynulliad Cymru ei gymeradwyo'n unfrydol gan aelodau o Fwrdd yr Iaith Gymraeg mewn cyfarfod agored o'r Bwrdd yn Ystradgynlais ar 4 Hydref. Mae'r Cynllun yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i normaleiddio'r iaith Gymraeg ar draws y meysydd polisi, yn ogystal â phennu pa wasanaethau y byddwn yn eu darparu i'r cyhoedd yn Gymraeg. Byddwn yn cyhoeddi fersiwn brint o'r Cynllun dros y dyddiau nesaf a bydd pob un o Aelodau'r Cynulliad yn derbyn copi ohono. Yn y cyfamser, mae fersiwn electronig ar gael ar wefan y Cynulliad. Byddaf yn gwneud datganiad ar y Cynllun yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos nesaf.

***Y Mesur Cyfathrebu***

Ym mis Awst, cyflwynais Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r Mesur Cyfathrebu a manteisiais ar y cyfle i argyhoeddi Gweinidogion y DU bod angen i Gymru gael llais cryf o fewn y strwythur rheoleiddiol newydd. Cafodd copïau o'r Ymateb eu hanfon hefyd at bob AS o Gymru ar gais y Pwyllgor hwn. Rwyf wedi gwahodd yr Arglwydd Currie, Cadeirydd newydd OFCOM, i gwrdd â mi i drafod materion sy'n peri pryder cyffredinol. Bydd Aelodau'r Pwyllgor hefyd am nodi bod yr Athro Ian Hargreaves, Pennaeth yr Ysgol Newyddiaduriaeth ym Mhrifysgol Caerdydd wedi'i benodi'n aelod anweithredol o brif Fwrdd OFCOM.

***Y Polisi Iaith Gymraeg***

Roeddwn yn Abergwaun ar 29 Gorffennaf i lansio datganiad polisi gwreiddiol Llywodraeth y Cynulliad ar yr iaith Gymraeg, *Dyfodol Dwyieithog : Bilingual Future*. Mae'r ddogfen, y mae pob un ohonoch wedi'i derbyn, yn rhoi braslun o brif egwyddorion ein polisi iaith. Caiff y rhain eu nodi'n fanylach yng Nghynllun Gweithredu'r Llywodraeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg, sydd i'w gyhoeddi tua diwedd y flwyddyn. Yn ystod yr ymweliad hwn, agorais swyddfeydd newydd y cynllun peilot lleol ar gyfer Gweithredu Ieithyddol yn Abergwaun.

***Fforwm Cartn Eryri***

Bum yn y Fforwm Cartn ar 21 Medi i gyflwyno'r Cartoon D'Or ar gyfer gwaith animeiddio. Y Fforwm Cartn yw'r prif ddigwyddiad masnachol ar gyfer y diwydiant animeiddio yn Ewrop ac fe'i cynhaliwyd ym Mhlas y Faenol ger Bangor rhwng 18-21 Medi. Dyma'r tro cyntaf iddo gael ei gynnal yng Nghymru neu Loegr. Mae'r wobr yn gweithredu fel ysgol feithrin ar gyfer talent newydd yn y diwydiant animeiddio ac mae'n cyflwyno pum ffilm fer ar gyfer y gystadleuaeth.

Eleni roedd y Fforwm yn dod â 780 o gyfranwyr at ei gilydd gan gynnwys 266 o fuddsoddwyr. Roedd 15 o wledydd Ewropeaidd yno'n cyflwyno 80 o brosiectau (roedd 53% o'r DU a Ffrainc) ac yn chwilio am 290 miliwn Ewro ar gyfer rhoi 458 o oriau o animeiddio ar waith. Roedd chwe phrosiect o Gymru yno. Cyfrannodd Llywodraeth y Cynulliad £65,000 tuag at gynnal y digwyddiad pwysig hwn.

***Amgueddfa Glandwr Genedlaethol Abertawe***

Ar 26 Gorffennaf cyhoeddodd Bwrdd Prosiectau Amgueddfa Glandwr Genedlaethol Abertawe bod ei gynnig am arian gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri wedi bod yn llwyddiannus. Rhoddwyd grant o oddeutu £10.7 miliwn i'r prosiect, chyfanswm y gost a ragwelir yw £30.9 miliwn. Dyma'r grant CDL mwyaf erioed i gael ei ddyfarnu yng Nghymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi neilltuo £6 miliwn o gyllid wrth gefn.

Cafodd y cynlluniau ar gyfer yr adeilad newydd, y gwaith o addasu Amgueddfa Diwydiant a Môr Abertawe a'r ardal o'i hamgylch, eu cymeradwyo gan Fwrdd Amgueddfa Glandwr Genedlaethol Abertawe ar 27 Medi. Penodwyd Mowlem fel prif gontractwyr y datblygiad a byddant yn cychwyn gweithio ar y safle ddechrau mis Ionawr, 2003.

Rwy'n deall bod Bwrdd y Prosiect yn rhoi strategaeth ar waith yn yr hydref er mwyn sicrhau £4.4 miliwn o gyllid ychwanegol gan y sector preifat.

***Adroddiad Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru 2001-02***

Roeddwn yn falch o dderbyn Adroddiad Blynyddol Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ar gyfer 2001-02. Roedd yn nodi cynnydd o 87 y cant yn nifer yr ymwelwyr ar ôl cyflwyno'r polisi mynediad am ddim. Cymorth ariannol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a wnaeth y polisi hwn yn bosibl. Mae'n bleser dweud wrth y Pwyllgor bod y cynnydd yn cael ei gynnal yn ystod y flwyddyn ariannol <u>gyfredol</u>. Mae nifer yr ymwelwyr hyd yma 68 y cant yn uwch o'i gymharu â 2000-01, sef y flwyddyn olaf o dâl mynediad.

***Cynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd***

Ar 18 Medi, rhoddais anerchiad yng Nghynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd ym Manceinion. Fy thema oedd dylanwad aruthrol y polisi mynediad am ddim ar yr wyth safle Amgueddfa Genedlaethol yng Nghymru. Bellach, gall miloedd o bobl o Gymru ac o dramor fwynhau'r trysorau sydd i'w gweld yng nghasgliadau'r Amgueddfa, a dysgu ganddynt.

***Araith i Gynhadledd Flynyddol y DU o Gymdeithas Cyfeillion Amgueddfeydd Prydain***

Ar 28 Medi, rhoddais groeso i gynadleddwyr o bob rhan o'r DU i Gynhadledd Flynyddol y Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Cyfeillion Amgueddfeydd, a gynhaliwyd yn yr Amgueddfa Genedlaethol ym Mharc Cathays. Atgoffais y cynadleddwyr o ddatblygiadau'r Amgueddfa Genedlaethol yn y Pwll Mawr, Abertawe ac yn Amgueddfa Diwydiant Gwlân Cymru. Mae gan y rhan fwyaf o amgueddfeydd sefydliadau sy'n "Gyfeillion" ac sy'n rhoi cymorth gwirfoddol ac ariannol i'w rhiant-gorff. Roedd yr ymweliadau ag

Amgueddfa Werin Cymru, Castell Caerdydd a'r Amgueddfa Genedlaethol wedi creu cryn argraff ar y cynadleddwyr.

***Penodi Llywydd a Dirprwy Lywydd i'r Amgueddfa Genedlaethol***

Rwy'n falch o gyhoeddi i'r Pwyllgor bod yr Amgueddfa Genedlaethol wedi penodi Paul Loveluck i olynu Mathew Prichard fel Llywydd Newydd gyda Dr Susan Davies yn olynu Roger Thomas fel Dirprwy Lywydd. Rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â hwy ar y prosiectau cyffrous a llawn her sy'n wynebu'r Amgueddfa dros y blynyddoedd nesaf. Hoffwn nodi fy niolchgarwch i Mathew Prichard a Roger Thomas am eu gwasanaeth i'r Amgueddfa. Cafodd Mr Loveluck a Dr Davies eu penodi ar ôl hysbysebu a chynnal proses ddethol hollol agored a chystadleuol.

***Cyfarwyddwr Cyffredinol Newydd yr Amgueddfa Genedlaethol***

Mae'r broses o ddethol a phenodi Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd yr Amgueddfa Genedlaethol ar y gweill. Rwy'n deall bod y cyfweliadau wedi bod ac y bydd yr Amgueddfa mewn sefyllfa i gyhoeddi'r ymgeisydd llwyddiannus cyn bo hir.

***Y Map o'r 'Amgueddfeydd Cofrestredig yng Nghymru'***

Yn ystod fy ymweliad â'r Eisteddfod ddydd Iau 8 Awst, cyflwynais y Map o'r 'Amgueddfeydd Cofrestredig yng Nghymru' sy'n dangos lleoliadau pob un o'r 88 o amgueddfeydd cofrestredig yng Nghymru. Er mwyn cael eu derbyn o dan y cynllun hwn, a gaiff ei weinyddu yng Nghymru gan Gyngor Amgueddfeydd Cymru, bydd yn rhaid i'r amgueddfeydd gyrraedd safonau arbennig o ran gofal a darpariaeth.

Dyma'r map cyntaf o'i fath. Anfonwyd copïau ohono i bob amgueddfa gofrestredig ac i bob canolfan wybodaeth i dwristiaid ledled Cymru.

Rwyf wedi anfon copïau o'r map hefyd at bob Aelod o'r Cynulliad yn eu gwahodd i gefnogi'r fenter drwy ymweld ag amgueddfa leol yn eu hetholaeth. Rwy'n gobeithio bod aelodau'r Pwyllgor hwn wedi llwyddo i wneud hynny, a hoffwn glywed am eich profiadau.

***Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru***

Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grant o £360 mil i Ardd Fotaneg Genedlaethol Cymru ar 2 Awst 2002.

Rwyf i a'm swyddogion yn parhau i gydweithio'n agos â'r Ardd er mwyn sicrhau bod ei dyfodol ariannol yn ddiogel ac y gellir ei chynnal yn y tymor hir.

Fel rhan o'r broses hon, mae'r Cynulliad wedi penodi KPMG i gynnal adolygiad o achos busnes yr Ardd ac o'i gweithrediad. Rwy'n disgwyl i'r adolygiad hwn gael ei gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd 2002. Bydd gennym well dealltwriaeth wedyn o'r her sy'n wynebu'r Ardd yn y dyfodol ac o'i sefyllfa ariannol.

***Y Loteri***

Cafodd yr Adolygiad o Arian y Loteri ei lansio ar 29 Gorffennaf. Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus yn dod i ben ar 30 Hydref. Bydd y Gweinyddiaethau Datganoledig, erbyn diwedd mis Tachwedd, yn cyflwyno eu barn yng ngoleuni'r ymatebion a dderbyniwyd yn eu gwledydd. Bydd y Pwyllgor yn cael cyfle i ystyried y materion allweddol sy'n deillio o'r Adolygiad yn ein cyfarfod ar 20 Tachwedd.

***Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Digwyddiadau***

Rydym wedi hysbysebu ein bod yn chwilio am sefydliadau sydd â'r profiad addas i'n cynorthwyo i ddatblygu'r strategaeth. Yn y cyfamser, mae swyddogion yn bwrw iddi â'r gwaith paratoi a fydd yn ein helpu wrth gynhyrchu'r astudiaeth.

***Gemau'r Gymanwlad 2002 ym Manceinion***

Rhoddais araith mewn cyfarfod o Weinidogion Chwaraeon y Gymanwlad ym Manceinion ar "Annog merched i gymryd rhan mewn chwaraeon." Wedi hynny, euthum i wylio'r Gemau ym Manceinion a phleser oedd gweld perfformiad gorau erioed tîm Cymru. Mae Prif Weinidog Cymru wedi gofyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru archwilio pa mor ddichonol fyddai cyflwyno cynnig i gynnal Gemau'r Gymanwlad 2014 yng Nghymru. Ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru, bydd Prif Weinidog Cymru a minnau yn mynd ati ar y cyd i gynnal derbyniad ar 7 Tachwedd i anrhydeddu'r tîm a gynrychiolodd Cymru yng Ngemau'r Gymanwlad 2002, yn ogystal â Chlwb Criced Morgannwg.

***Y Fforwm Pêl-droed***

Mae'r Fforwm Pêl-droed wedi cyflwyno argymhellion i mi o ran datblygiad y bêl gron yng Nghymru yn y dyfodol. Hoffwn fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i Gareth Davies, y Cadeirydd, a phob un o aelodau'r Fforwm am eu gwaith. Rwyf bellach yn ystyried beth yw'r ffordd orau ymlaen.

***Adolygiad yr Uned Strategol o Chwaraeon***

Ym mis Ionawr eleni, comisiynodd y Prif Weinidog Adolygiad o Chwaraeon i'w gynnal gan yr Uned Strategol. Mae disgwyl i'r ddogfen arwyddocaol hon gael ei chyhoeddi fis Tachwedd eleni er mwyn ymgynghori arni. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru ynghyd â Chyngor Chwaraeon Cymru yn asesu ac yn gwerthuso sut y gallai'r adroddiad effeithio ar chwaraeon yng Nghymru.

***Caerdydd 2008***

Daeth y panel asesu annibynnol i Gaerdydd ar 10 Gorffennaf. Cyfarfum â hwy sawl gwaith yn ystod y diwrnod, fel y gwnaeth Prif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Gyllid. Daeth Tessa Blackstone i Gaerdydd ar 23 Medi. Rwyf o'r farn bod y panel a'r Gweinidog wedi ymadael â Chaerdydd gyda'r argraff bendant fod cynnig Caerdydd yn derbyn cefnogaeth lawn gan y Cynulliad a phartneriaid eraill. Ddechrau mis Hydref, rhoddodd y tîm a luniodd y cynnig gyflwyniad terfynol i'r panel yn Llundain. Rwy'n deall ei fod wedi mynd yn dda. Bydd y dinasoedd ar y rhestr fer yn cael eu cyhoeddi dros yr wythnosau nesaf a bydd y Prif Weinidog yn cyhoeddi dewis terfynol y DU ar gyfer Prifddinas Diwylliant Ewrop yn y gwanwyn.

***Canolfan Mileniwm Cymru***

Rhoddais ddatganiad i'r cyfarfod llawn yr wythnos ddiwethaf ar ddatblygiadau diweddaraf Canolfan Mileniwm Cymru (CMC). Y newyddion da oedd bod y cynllun Lwfansau Cyfalaf wedi cael ei gwblhau ar 11 Hydref. Mae hon yn dipyn o gamp ac yn gam mawr ymlaen. Mae'r contract adeiladu yn parhau i fod ar amser ac o fewn y gyllideb. Byddaf, wrth gwrs, yn edrych ar y sefyllfa'n fanwl iawn, yn arbennig wrth i ni symud i'r cyfnod cyn ei hagor. Byddaf yn parhau i roi adroddiadau cyson i'r Pwyllgor.

***Brixen***

Bum mewn cynhadledd o'r Cynulliad o Ranbarthau Ewropeaidd yn Brixen yng Ngogledd yr Eidal yr wythnos ddiwethaf. Teitl y gynhadledd oedd "Globaleiddio Diwylliant ac Addysg - WTO a GATS" ac yno rhoddais anerchiad ar y diwydiant cerddoriaeth ac arian cyhoeddus. GATS yw'r "Cytundeb Cyffredinol ar Fasnach mewn Gwasanaethau" ac mae'n arwyddocaol mai'r DU yw'r ail wlad fwyaf yn y byd am allforio gwasanaethau. Mae'r Adran dros Fasnach a Diwydiant newydd gyhoeddi dogfen ymgynghorol ar gyfer y DU - "Liberalising Trade in Services." Os bydd gan aelodau ddiddordeb gallaf roi copïau o'm haraith iddynt.

***Festival Interceltique de Lorient***

2002 oedd "Année du Pays de Galles" - Blwyddyn Cymru - yng Ngyl Ban-geltaidd Lorient. Yn yr yl, a gynhelir yn ystod wythnos gyntaf Awst, roedd pafiliwn Cymreig, cyngerdd Cymreig, llawer o berfformiadau Cymreig a stryd Gymreig wedi'i haddurno â baneri Cymru. Tra'r oeddwn yno, agorais gylchfan yr oedd yr yl wedi'i ddewis i ddathlu'r cysylltiad â Chymru, gyda cherflun trawiadol o ddraig arno, wedi'i greu gan deulu David Petersen.

Mae'r yl yn anferth - aeth tua 800,000 o bobl yno eleni - a chredaf ei bod yn wir dweud bod Blwyddyn Cymru wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Roedd pafiliwn Cymru, gyda'i fwydydd, crefftau a pherfformiadau Cymreig, mewn lleoliad da iawn a llwyddodd i ddenu heidiau o ymwelwyr. Denodd y cyngerdd Cymreig gynulleidfa o fwy na 3500, a chafwyd perfformiad newydd ac arloesol o ddawnsio Cymreig - Coeden Dân - a oedd yn cyfuno'r gorau o ddawns draddodiadol Gymreig â deunyddiau cyfoes a chyffrous. Perfformiodd Siân James a'i band gwerin yn y cyngerdd a chafwyd unawd gan Robin Huw Bowen ar y delyn deires.

Roedd wythnos yr yl yn llawn o berfformiadau Cymreig eraill, gan gynnwys yr Hennessys, côr meibion Cwmbach, Carreg Lafar ac Amy Wadge - enw newydd ond un i gadw llygad allan amdani. Roeddwn i a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd yn yr yl a chawsom ein siomi ar yr ochr orau gan yr hyn a welsom. Aethom i ddwy gynhadledd i'r wasg a rhoesom gyfweliadau i'r wasg a'r cyfryngau. Cafodd Cymru sylw gwych yn y wasg leol a chenedlaethol, gan gynnwys darn helaeth yn Le Monde. Mae Blwyddyn Cymru yn bendant wedi cael dylanwad sylweddol o ran hyrwyddo Cymru yn Ewrop.

***Llong Casnewydd***

Tra'r oedd gwaith adeiladu'n cael ei wneud ar Ganolfan Gelfyddydau a Theatr Casnewydd, a ariennir yn rhannol gan y Cyngor Celfyddydau, daeth yr adeiladwyr o hyd i long ganoloesol. Mae'r Cynulliad wedi cytuno i roi hyd at £3.5 miliwn i godi gweddillion y

llong, eu cadw a'u harddangos mewn ffordd wreiddiol o dan lawr gwydr yng nghyntedd y theatr. Bydd oriel gyhoeddus yn cael ei chodi o dan y llawr er mwyn galluogi pobl i fynd i weld y canfyddiad unigryw hwn.

Cafwyd sawl cais am arian i adfer blaen a starn y llong er mwyn i genedlaethau'r dyfodol gael y pleser o'u gweld. Ond yn ôl adroddiadau'r arbenigwyr, collwyd y rhannau hynny o'r llong amser maith yn ôl pan gafodd y glanfeydd eu codi dros ganrif yn ôl, o bosibl.

**YMWELIADAU'R GWEINIDOG RHWNG 17 GORFFENNAF A 23 HYDREF 2002**

**Gorffennaf**

Ymweld â Sioe Frenhinol Cymru Llanfair ym Muallt

Annerch Cyfarfod o Weinidogion Chwaraeon Manceinion

y Gymanwlad

Achlysur Lansio Gyl Ban-geltaidd Lorient Opera Genedlaethol

gydag Andrew Davies AC Cymru, Caerdydd

Noswaith Olaf Proms Cymru Neuadd Dewi Sant

Perfformiad Gala o *Midsummer Night's Dream* Sain Ffagan

Ymweld â Chanolfan Hamdden i weld tennis yn Abergwaun

cael ei hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg

Agor swyddfeydd Prosiect Datblygu Rhanbarthol Abergwaun

Bwrdd yr Iaith Gymraeg a rhoi anerchiad ar y

Polisi Iaith Gymraeg

Taith o Safle'r Eisteddfod Tyddewi

Gemau'r Gymanwlad Manceinion

**Awst**

Brecwast Busnes Bwrdd yr Iaith Gymraeg Swyddfeydd Banc Lloegr, Caerdydd

Cyfarfod o Gyngor AOCC Parc Cathays

Agoriad swyddogol Gyl Ban-geltaidd Lorient Llydaw

Noson agored Llong Casnewydd Canolfan Gelfyddydau Casnewydd

Mynd i Ginio Gala Cystadleuaeth Golff Agored Cymru Celtic Manor

(Cwpan Ryder)

Ymweld â'r Eisteddfod Genedlaethol Tyddewi, Sir Benfro

Ymweld ag Amgueddfa Powys Y Trallwng

Ymweld â Safle'r Pwll Nofio Cenedlaethol Abertawe

Ymweld ag XL Cymru Abertawe

Cwrdd â

"Women in Jazz" Abertawe

Pencampwriaeth Golff Agored Ewrop i Fenywod Porthcawl

**Medi**

Lansio Gyl Ddrama Ysgol Shakespeare S4C Yr Hen Lyfrgell,

Caerdydd

Annerch Cynhadledd Flynyddol o Gymdeithas yr Manceinion

Amgueddfeydd Cenedlaethol

Ymweld â Sefydliadau Cerddoriaeth a'r Mynwy

Celfyddydau Perfformio

Ymweld â lleoliad "Tomb Raider" Dinas, ger

Bangor

Annerch y Fforwm Cartn Castell Biwmares, Ynys Môn

Gweld perfformiad o Tosca Theatr Newydd

Annerch Cynhadledd o Gymdeithas Cyfeillion AOCC, Cathays

Amgueddfeydd Prydain

Cynnal Derbyniad Cwpan Ryder a gwylio'r diwrnod olaf De Vere Belfry

**Hydref**

Ymweld ag Amgueddfa T•'n y Coed Uchaf Betws y Coed

Ymweld â Th• Mawr Wybrnant Betws y Coed

Ymweld â Chanolfan Bedwyr (Canolfan Prifysgol Bangor

Dechnoleg Iaith Gymraeg)

Cyfarfod i drafod Prosiect Anthem Cymru Prifysgol Bangor

Ymweld ag adeilad y Comisiwn Brenhinol ar Aberystwyth

Henebion Hanesyddol Cymru

Lansio Theatr Ieunectid Showcase a gwylio Aberdâr

cynhyrchiad o *South Pacific*

Cyflwyno 2il Seremoni Wobrwyo Flynyddol Cymru Neuadd Dewi Sant,

ar gyfer Amrywiaeth Ddiwylliannol Caerdydd

Rhoi araith yn achlysur lansio "Casglu'r Tlysau" AOCC, Cathays

Annerch Cynhadledd Lottery Monitor Gwesty'r Marriott, Caerdydd

Mynd i Gêm Bêl-droed Cymru yn erbyn yr Eidal Stadiwm y Mileniwm

Cyflwyno Papur ar Gerddoriaeth yn yr 2il Gynhadledd Brixen, yr Eidal

Ewropeaidd ar gyfer Gweinidogion Rhanbarthol

dros Ddiwylliant

Mynd i weld perfformiad Theatr Gerddoriaeth Theatr y Sherman

Genedlaethol yr Ifanc o *Oklahoma*

Lansio Artes Mundi - Digwyddiad i nodi'r Yr Amgueddfa

Celfyddydau Gweledol Genedlaethol, Cathays